POLISI IAITH GYMRAEG CLARENCE HALL
Diweddarwyd ddiwethaf Ionawr 2023

DATGANIAD POLISI

Bwrdd Rheoli Clarence Hall (y Bwrdd Rheoli) yw'r corff rheoli ar gyfer Clarence Hall, Crickhowell, sy'n elusen gofrestredig (1187701) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (11971202).

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n cydnabod y gall defnyddwyr y Neuadd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn yw eu galluogi i ddefnyddio eu dewis iaith a gallai gwadu'r hawl honno roi defnyddwyr posibl y Neuadd dan anfantais wirioneddol.. Oherwydd hynny, cred y Bwrdd Rheoli ei bod yn arfer da darparu gwasanaethau yn newis iaith y rhai sy'n defnyddio ac yn mynychu Clarence Hall.

NODAU

Nod y Bwrdd Rheoli yw dangos parch at ein gweithwyr, gwirfoddolwyr, defnyddwyr a'r rhai sy'n llogi'r neuadd drwy annog a hwyluso'r defnydd o'u dewis iaith pan maent yn cyfrannu at weithgareddau'r Neuadd. Nod y Bwrdd Rheoli yn y pen draw yw galluogi pobl i ymgysylltu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg, gyda'r holl ddeunyddiau allweddol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae wedi ymrwymo i gyflawni'r uchelgais hon, ac mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn nodi ein hymrwymiadau presennol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg a, lle bo'n briodol, yn gosod targedau i'n helpu i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg i gyrraedd y nod hwn yn y pen draw.

I'r graddau hynny, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd wrth gyflwyno polisi sy'n ystyried anghenion a dyheadau siaradwyr Cymraeg yn ein cymuned.

EIN HYMRWYMIADAU

- Cyfathrebu wyneb yn wyneb – byddwn yn annog penodi o leiaf un aelod o'r Bwrdd Rheoli sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg â'n gwirfoddolwyr, ein defnyddwyr ac aelodau'r gymuned. Hyd nes y bydd hyn wedi'i gyflawni, bydd unrhyw un sy'n dymuno siarad yn y Gymraeg mewn perthynas â delio â'r Neuadd yn cael ei gyfeirio at unigolyn enwebedig, y mae ei fanylion ar gael ar ein gwefan -

https://www.clarencehallcrickhowell.org.uk. Os nad yw'r unigolyn enwebedig ar gael ar y pryd, gellir aildrefnu'r sgwrs ar gyfer amser pan fydd yr unigolyn a enwebwyd yn gallu ymateb, neu mae croeso i'r unigolyn barhau â'r alwad yn y Saesneg, neu anfon ymholiad ysgrifenedig yn y Gymraeg.

- Gohebiaeth - bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg os bydd y gohebydd yn gofyn am hynny.
- Arwyddion diogelwch parhaol - mae ein harwyddion diogelwch parhaol yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd ond byddant yn cael eu hamnewid, fel rhan o'n prosiect adnewyddu, gydag arwyddion dwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.
- Posteri – mae posteri hyrwyddo allweddol ar gyfer y Neuadd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Anogir trefnwyr digwyddiadau annibynnol sy'n defnyddio'r Neuadd i gynhyrchu posteri'n ddwyieithog.
- Cyhoeddiadau a pholisïau – mae ein Telerau ac Amodau a Pholisïau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Y wefan – bydd rhywfaint o Gymraeg yn cael ei chyflwyno i'n gwefan erbyn canol 2023 gyda chyfathrebiadau allweddol yn cael eu cyfieithu, yn ogystal â'r cyhoeddiadau a'r polisïau a amlinellir uchod. Unwaith y bydd ein cyfres graidd o ddogfennau wedi'u hymgorffori yn ein gwefan, bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r camau nesaf i'w cymryd tuag at sicrhau safle dwyieithog.
- Arweinyddiaeth – mae ein Hymddiriedolwr Cyfathrebu a Chanlyniadau yn gyfrifol am weithredu, hyrwyddo a monitro'r polisi hwn.
- Arolygon – cynhyrchwyd ein Harolygon Cymunedol 2020 yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr holl arolygon adborth a chanlyniadau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn y dyfodol.
- Grwpiau Cymraeg - Unwaith y bydd ein Hystafell Dderbyn amlbwrpas yn ei lle, gobeithiwn y bydd gweithgareddau Cymraeg yn y Neuadd yn ehangu.
- Addysgu'r Gymraeg – byddwn yn annog defnyddio'r Neuadd ar gyfer dysgu Cymraeg, gan gydnabod bod y gweithgaredd hwn nid yn unig yn diwallu angen yn y gymuned ond hefyd yn cynorthwyo i hybu'r Gymraeg.
- Ymwybyddiaeth – bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'n gweithwyr, defnyddwyr, gwirfoddolwyr, y rhai sy'n llogi'r Neuadd ac i'n cymuned ei ddarllen.

MYNEDIAD AT WASANAETHAU CYFIEITHU

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg hwn, mae'r Bwrdd Rheoli wedi creu grŵp o siaradwyr Cymraeg sy'n fodlon cynorthwyo gyda chyfieithu deunyddiau craidd y Neuadd.

Rydym hefyd wedi cofrestru gyda gwasanaeth Llywodraeth Cymru, Helo Blod, i sicrhau bod ein deunyddiau cyhoeddusrwydd craidd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ee Datganiad i'r Wasg Arian y Loteri, Lansio'r Apêl Codi Arian.

Mae gennym gysylltiad â Telelingua, cwmni o arbenigwyr ar gyfieithu sydd wedi'i leoli yng Nghrucywel, sy'n gallu cynorthwyo ar sail fasnachol gyda chyfieithu ein cyfathrebiadau, cyhoeddiadau a pholisïau allweddol i'r Gymraeg.

Gan gydnabod yr ymrwymiad ariannol a'r amser sydd ei angen i greu a chynnal gwefan ddwyieithog, mae'r Bwrdd Rheoli yn ymchwilio i opsiynau ariannu ac i adnoddau i gynorthwyo gyda hyn ar hyn o bryd.

GWEITHREDU

Mae gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar ymwybyddiaeth ac ymrwymiad holl aelodau'r Bwrdd Rheoli, gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr allweddol sy'n rheoli ac yn cefnogi gweithgareddau Clarence Hall. Yn unol â hynny, gwneir pob aelod newydd, gweithiwr a gwirfoddolwr yn ymwybodol o fodolaeth y polisi pan fyddant yn ymuno am y tro cyntaf a chânt eu hysbysu y disgwylir iddynt gydymffurfio â'i ofynion.

Mae ein hymddiriedolwr Cyfathrebiadau a Chanlyniadau yn gyfrifol am weithredu, hyrwyddo a monitro'r polisi hwn ac am ddarparu datganiad cydymffurfiad blynyddol i'r Bwrdd Rheoli.

Dyddiad y diweddariad diwethaf a chymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli: Ionawr 2023

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Ionawr 2024

Swyddog cyfrifol: Rebecca Games